# Cylchlythyr Rhwydwaith Gofal Plant
# Mehefin 2025

## Arolwg Cyflwr y Sector Gofal Plant

## Diolch!!

**Diolch yn FAWR i leoliadau gofal plant a gymerodd ran yn ein Harolwg Cyflwr y Sector Gofal Plant fel rhan o Adroddiad Cynnydd yr Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant 2025.**

**Ar sail yr ymateb, nododd yr arolwg rhai materion cyffredin mewn lleoliadau gofal plant yn Nhorfaen, sef;**

**Mwy o blant gydag ADY yn mynychu**
**Cynnydd yn y plant â phryderon o gylch eu hymddygiad**
**Cadw staff a phwysau gwaith yn gysylltiedig â straen**

**Ymhlith materion eraill yn y sylwadau, roedd:**
**Costau cynyddol a chyllid annigonol**
**Trafferth gyda rhyddhau staff ar gyfer hyfforddiant**
**Diffyg hyrwyddo lleoliadau nas cynhelir**

**Bydd y sylwadau i gyd yn cael eu hadolygu a'u hystyried ar gyfer camau gweithredu yn y Cynllun Gweithredu Gofal Plant 2026-2027**

**Os hoffech chi unrhyw gefnogaeth bellach, neu os oes cwestiynau gyda chi, cysylltwch â**
**Hannah.Bedford@torfaen.gov.uk**

Torfaen
Family Information Service
Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd



# I'ch Atgoffa - DEWIS

Fel yr ydych i gyd yn gwybod, mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn defnyddio dewis.cymru i roi gwybodaeth i deuluoedd a
phobl broffesiynol am ofal plant a gwasanaethau eraill yn Nhorfaen.
Os ydych chi wedi cynyddu'ch prisiau'n ddiweddar, neu wedi newid darpariaeth eich gwasanaeth,
a wnewch chi ddanfon e-bost at fis@torfaen.gov.uk os gwelwch yn dda er mwyn i ni ddiweddaru'ch cofnod i chi?

www.Dewis.Cymru
Cael dewis a chymryd rheolaeth

www.Dewis.Wales
Have choice and take control

# Swyddi Gwag

**Os oes gyda chi swyddi gwag yn eich darpariaeth, danfonwch e-bost at fis@torfaen.gov.uk i'w
hyrwyddo ar ein tudalennau cyfryngau cymdeithasol a'n gwefan.**

# Y Cynnig Gofal Plant i Gymru

Ydych chi'n cau dros wyliau'r haf?
Cofiwch y bydd rhaid i rieni sydd
am ddechrau'r Cynnig Gofal Plant i
Gymru fis Medi gwblhau
eu Cytundebau ar-lein gyda chi cyn
i chi gau!

Rhannwch y ddolen hon gyda nhw i'w cael i ddechrau:
www.llyw.cymru/cynnig-gofal-plant-cymru-ymgyrch

Neu gofynnwch iddyn nhw ffonio'r llinell gymorth
trwy 03000 628 62

Cynnig Gofal Plant Cymru
Childcare Offer for Wales



# Cyfleoedd ariannu a hyfforddiant:

**Plant yng Nghymru – 2 ddiwrnod - Hyfforddiant Ar-lein i Reolwyr**
**20 a 21 Hydref 2025 | 9:30 AM | Trwy Zoom**
**Ar fin camu i'ch rôl gyntaf fel rheolwr? Ymunwch â ni ar gyfer y digwyddiad rhyngweithiol**
**ar-lein yma i arfogi rheolwyr newydd â'r hyder a'r sgiliau i arwain yn effeithiol.**
**Dan arweiniad yr hyfforddwraig arbenigol, Deryl Dix, bydd y cwrs yma'n trafod:**
**Pontio i fod yn rheolwr**
**Cyfrifoldebau allweddol rheolwr rheng gyntaf**
**Deall eich dull o reoli**
**Hanfodion rheolaeth perfformiad**
**Sgiliau craidd ar gyfer arweinyddiaeth effeithiol**
**Creu eich cynllun datblygiad personol**
**Cymhwyso dysgu yn y gweithle**
**Bydd yn cynnwys trafodaethau grŵp, gweithgareddau ymarferol a sesiwn Holi ac Ateb.**
**Peidiwch â cholli'r cyfle hwn i ddatblygu eich sgiliau arweinyddol.**
**Cofrestrwch nawr i gymryd eich cam cyntaf tuag at fod yn rheolwr!**
**Os ydych chi'n aelod o Blant yng Nghymru, cysylltwch â training@childreninwales.org.uk i dderbyn cod gostyngiad o 10%.**

PLANT YNG NGHYMRU
CHILDREN IN WALES

**<u>Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs – Mynegiant o Ddiddordeb</u>**
**Oes diddordeb gennych chi mewn cofrestru i ennill cymhwyster Gwaith Chwarae trwy gwrs**
**12 wythnos sy'n ysbrydoli ac yn goleuo gweithlu sydd eisoes yn fedrus i ddeall a gweithredu'r dull Gwaith Chwarae? Os felly, hoffai Clybiau Plant Cymru i chi gofrestru diddordeb yma**

Clybiau
Plant Cymru
Kids' Clubs



# Cyfleoedd Ariannu a Hyfforddiant:

## Cyfleoedd ariannu cyffredinol

**Cliciwch ar y dolenni canlynol am wybodaeth bellach am gyfleoedd ariannu cyffredinol**

**Hyd at £10,000 Ar Gael ar gyfer Prosiectau Plannu Coed Cymunedol (Lloegr, Yr Alban a Chymru),** dyddiad cau 31ain Gorffennaf 2025.

**Cyllid i Gefnogi Plant Anabl a Dan Anfantais (DU)**

Y dyddiad cau nesaf ar gyfer ceisiadau yw canol Awst 2025 ar gyfer cyfarfod yr Ymddiriedolwyr fis Medi.

**Grantiau o hyd at £5,000 ar gael ar gyfer Prosiectau Lles Cymdeithasol (DU)**

Rhaid derbyn ceisiadau erbyn diwedd Awst 2025 i gael eu hystyried yng nghyfarfod y Gwanwyn.

**Cyllid i Brosiectau sy'n Cael Effaith Gadarnhaol ar Gymunedau, Pobl neu'r Amgylchedd (DU)**

Rhoddir cyllid pob tri mis a'r dyddiad cau nesaf ar gyfer y rownd nesaf yw 15fed Medi 2025.

**Grantiau ar gyfer Plannu Coed, Gwrychoedd a Pherllannau (DU)**

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner nos ar 14eg Tachwedd 2025.

**Cyllid i Wella Canlyniadau Addysgol i Blant a Phobl Ifanc Dan Anfantais o dan 26 oed (DU)**

Adolygir ceisiadau bob chwarter a'r dyddiad cau nesaf ar gyfer ceisiadau yw 15fed Gorffennaf 2025.

**Cyhoeddi Cyllid ar gyfer Cynlluniau Treftadaeth Cymunedol Lleol (DU)**

**Cyllid i Annog Gwirfoddoli Ymhlith Pobl Ifanc (DU)**

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau yw 5pm ar 2il Gorffennaf 2025.



# Dolenni ac Adnoddau

[Llyfrau'n Creu Dyfodol Mwy Disglair | Yr Ymddiriedolaeth Lyfrau]

Mae'r Ymddiriedolaeth Lyfrau a Bardd Plant Waterstones, Frank Cottrell-Boyce wedi lansio Hawliau Darllen: Llyfrau'n Creu Dyfodol Mwy Disglair. Mae'r adroddiad yn galw am ddarpariaeth genedlaethol fel bod gan bob plentyn fynediad at lyfrau a darllen o'u blynyddoedd cynharaf ymlaen.

Mae'n galw ar arweinwyr cenedlaethol a lleol mewn gwasanaethau blynyddoedd cynnar, iechyd, addysg a diwylliant i ddod ynghyd i wneud darllen yn rhan o fywyd pob dydd pob plentyn yn saith mlynedd gyntaf eu bywydau.

Gwyliwch y fideo byr yma

https://www.youtube.com/watch?v=wtFaVo6S0rQ



# Newyddion Da

**Meithrinfa'r Flwyddyn NDNA Cymru**

Llongyfarchiadau MAWR i Feithrinfa Dydd Belle Vue am ennill gwobr NDNA Cymru, Meithrinfa'r Flwyddyn 2025.
Dywed NDNA
'Mae gan Feithrinfa Bellevue nodau clir i blant.
Mae eu diwylliant yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith eu bod yn cadw staff ymroddedig sy'n
darparu
cysondeb a pharhad. Mae yna ymrwymiad at ddysgu parhaus a gweithio gyda'r gymuned i gefnogi pontio. Mae rhieni'n siapio gwelliannau mewn ffordd uniongyrchol ac mae pob plentyn yn cael eu hadnabod, eu cefnogi a'u dathlu fel unigolyn





# Cadwch y Dyddiad

## Digwyddiad Dathlu Gofal Plant
## 25ain Medi 2026

Ar ôl llwyddiant ein digwyddiad cyntaf, rydym yn eich gwahodd i gadw'r dyddiad ar gyfer yr 2il Ddigwyddiad Dathlu Gofal Plant Ddydd Iau, 25ain Medi.
Manylion i ddilyn, ond os hoffech chi gofrestru eich diddordeb, danfonwch e-bost at fis@torfaen.gov.uk.
(yn anffodus bydd rhaid cyfyngu niferoedd i 2 berson o bob lleoliad)




